**LC536**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) [(Cymru)] 2002, OS 2002 Rhif 2023 (W.207)**

Mae'r gorchymyn hwn yn rhoi diffiniad newydd o wasanaethau bysiau 'cymwys' at ddibenion darpariaethau'r cynllun consesiynau teithio yn Neddf Trafnidiaeth 1985 a Deddf Trafnidiaeth 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn hwn mewn perthynas â'r materion canlynol.

**Erthygl 1(1)**

Nid yw teitl y gorchymyn yn y ddarpariaeth enwi yn y testun Saesneg yn cynnwys unrhyw arwydd ei fod yn ymwneud â Chymru. Felly mae anghysondeb rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg gan fod y ddarpariaeth enwi yn y testun Cymraeg yn cynnwys "(Cymru)". Adlewyrchir yr anghysondeb hwn yn y ffaith bod y penawdau ar dudalennau 1 ac 2 y testun Cymraeg yn cynnwys "(Cymru)" yn briodol lle nad yw'r testun Saesneg yn cynnwys "(Wales)" yn y pennawd ar dudalen 2, er ei fod yn ei gynnwys ar dudalen 1.

Yn amlwg byddai'r ffurf gywir, a fwriadwyd yn ôl pob tebyg, wedi cynnwys "(Wales)" yn y ddarpariaeth enwi yn erthygl 1(1) yn y testun Saesneg a byddai hyn wedi'i adlewyrchu yn y pennawd ar dudalen 2.

Mae'r methiant i gynnwys "(Wales)" yn nhestun Saesneg y ddarpariaeth enwi wedi arwain at sefyllfa amhriodol lle mae gan y gorchymyn hwn wahanol deitlau ar gyfer y testun Saesneg a'r testun Cymraeg a lle mae ganddo, yn ei destun Saesneg, yn union yr un teitl â'r gorchymyn cynharach yn Lloegr, OS 2002 Rhif 1016.

**Erthygl 3(4)**

Dylai “regulation” ddarllen fel “article” a dylai “rheoliad hwn” ddarllen fel “erthygl hon”.

**Sylwadau**

Yn nhestun Cymraeg y nodyn esboniadol dylai “1992” ddarllen fel “1995” ac mae’r gair “adran” wedi’i hepgor yn y cyfeiriad at adran 154(6).

Mae sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog yn cadarnhau mai’r bwriad oedd cynnwys “(Wales)” yn y teitl a mynegir bod yn ddrwg ganddo fod y gwall hwn a gwallau eraill wedi’u hesgeuluso er gwaethaf system wirio fanwl gywir.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Hydref 2002